OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 1023 (Cy. 261)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2017

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Parhawyd â bodolaeth Cyngor y Gweithlu Addysg (“y Cyngor”) gan adran 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”). Mae adran 4 o Ddeddf 2014 yn nodi prif swyddogaethau'r Cyngor. Mae adran 5 o Ddeddf 2014 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud Gorchymyn sy'n rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r Cyngor neu'n gosod swyddogaethau ychwanegol arno.

Rhoddodd Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017 (“Gorchymyn 2017”) swyddogaethau ychwanegol i'r Cyngor sy'n ymwneud ag achredu cyrsiau neu raglenni astudio hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol ac â thynnu achrediad yn ôl (“Swyddogaeth Achredu”).

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2017 er mwyn rhoi swyddogaeth bellach i'r Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo roi sylw i ragolwg Gweinidogion Cymru o'r galw am athrawon newydd gymhwyso pan fydd yn arfer ei Swyddogaeth Achredu (erthygl 2).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2017 No. 1023 (W. 261)

# EDUCATION, WALES

## The Education Workforce Council (Accreditation of Initial Teacher Training) (Additional Functions) (Wales) (Amendment) Order 2017

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

The Education Workforce Council (“the Council”) was continued in existence by section 2 of the Education (Wales) Act 2014 (“the 2014 Act”). Section 4 of the 2014 Act sets out the main functions of the Council. Section 5 of the 2014 Act allows the Welsh Ministers to make an Order conferring or imposing additional functions on the Council.

The Education Workforce Council (Accreditation of Initial Teacher Training) (Additional Functions) (Wales) Order 2017 (“the 2017 Order”) conferred additional functions on the Council relating to the accreditation and withdrawal of accreditation of courses or programmes of study of initial school teacher training (“Accreditation Function”).

This Order amends the 2017 Order so as to confer a further function on the Council which requires it to have regard to the Welsh Ministers' forecast of demand for newly qualified teachers when exercising its Accreditation Function (article 2).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 1023 (Cy. 261)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Hydref 2017* |
| *Yn dod i rym* | *1 Tachwedd 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 5 a 47(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(**1**), ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 47(2) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2017.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Tachwedd 2017.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 2014 dccc 5.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2017 No. 1023 (W. 261)

# EDUCATION, WALES

## The Education Workforce Council (Accreditation of Initial Teacher Training) (Additional Functions) (Wales) (Amendment) Order 2017

| | |
|---|---|
| *Made* | *25 October 2017* |
| *Coming into force* | *1 November 2017* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 5 and 47(1) of the Education (Wales) Act 2014(**1**), having consulted such persons as they consider appropriate make the following Order.

In accordance with section 47(2) of the Education (Wales) Act 2014, a draft of this Order was laid before the National Assembly for Wales and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

**Title, commencement and application**

**1.**—(1) The title of this Order is the Education Workforce Council (Accreditation of Initial Teacher Training) (Additional Functions) (Wales) (Amendment) Order 2017.

(2) This Order comes into force on 1 November 2017.

(3) This Order applies in relation to Wales.

(**1**) 2014 anaw 5.

**Diwygio**

**2.** Yn erthygl 3 o Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017(**1**), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Wrth arfer y swyddogaethau ym mharagraff (1), mae'r Cyngor i roi sylw i unrhyw ragolwg o'r galw am athrawon newydd gymhwyso yr hysbysir y Cyngor amdano yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru."

**Amendment**

**2.** In article 3 of the Education Workforce Council (Accreditation of Initial Teacher Training) (Additional Functions) (Wales) Order 2017(**1**), after paragraph (2) insert—

"(3) In exercising the functions in paragraph (1) the Council is to have regard to any forecast of demand for newly qualified teachers that is notified to it in writing by the Welsh Ministers."

*Kirsty Williams*

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
25 Hydref 2017

Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers
25 October 2017

©ⓗHawlfraint y Goron 2017

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2017

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2017/154 (Cy. 45).

(**1**) S.I. 2017/154 (W. 45).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

**2017 Rhif 1023 (Cy. 261)**

**2017 No. 1023 (W. 261)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2017

The Education Workforce Council (Accreditation of Initial Teacher Training) (Additional Functions) (Wales) (Amendment) Order 2017

£4.25

W201710251008 11/2017

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2017/1023

ISBN 978-0-348-20162-8